Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Cultural Trust

Amlinelliad o'r Swydd

Teitl y Swydd:

Cynorthwyydd Cymorth Hyfforddi

Sail:

Rhan Amser – 15 awr * gofyniad i weithio ar benwythnosau yn ystod cyfnodau prysur

Cyflog:

£26,072 FTE

Statws:

Parhaol

Lleoliad:

B-Leaf – Parc Gwledig Bryngarw WoodB

– Parc Menter Tondu

Yn atebol i:

Arweinydd Garddwriaeth

Yn gyfrifol am:

Amherthnasol

Eich Rôl:

Darparu cymorth i hyfforddeion sy'n hybu eu diogelwch a'u lles bob amser. Hefyd, cynorthwyo gyda darparu cyfleoedd hyfforddi ystyrlon i hyfforddeion a chyfrannu at hyrwyddo a datblygu'r cynhyrchion / gwasanaethau cysylltiedig.

Yn y rôl byddwch yn:

- Darparu cefnogaeth a chymorth ymarferol i hyfforddeion ar draws ein prosiectau anabledd dysgu (Wood-B a B-Leaf) yn ôl yr angen i hyrwyddo eu diogelwch a'u lles personol a sicrhau eu bod yn gyfforddus.
- Cefnogi'r Swyddog Cymorth Hyfforddi a Chyflogadwyedd i hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi a datblygu sgiliau cyflogadwyedd ar gyfer hyfforddeion.
- Darparu hyfforddiant i hyfforddeion mewn meysydd fel tirlunio, cynnal a chadw tiroedd a garddwriaeth.
- Cyfrannu at ddarparu cyfleoedd datblygu i hyfforddeion trwy gynorthwyo cydweithwyr gydag asesiadau perthnasol a chynlluniau hyfforddi.
- Cyfrannu at ddatblygu a chyflenwi cynhyrchion a gwasanaethau a ddarperir / a grëwyd gan yr hyfforddai trwy wasanaeth cwsmeriaid effeithiol.
- Cyfrannu at asesu risg, arfarniadau a phrosesau eraill a allai fod eu hangen ar gyfer hyfforddai unigol.
- Darparu arbenigedd a chyngor ynghylch costau tymhorol – cynnyrch effeithiol i'w dyfu a'i werthu yn ein lleoliad garddwriaeth/canolfan arddio yn B-Leaf.
- Darparu cyngor a chefnogaeth sy'n cyfrannu at ein rhaglenni tyfu cynnyrch. Byddwch yn cynorthwyo i ddatblygu a thwf ein rhandiroedd a'n rhaglen tyfu madarch i gynyddu ein cynhyrchiad o gynnyrch cynaliadwy.
- Cysylltu â theuluoedd, gofalwyr ac asiantaethau eraill fel y cyfarwyddir gan yr Uwch Swyddog Cymorth Hyfforddiant/Swyddog Cymorth Hyfforddiant.
- Bod yn gwbl gyfarwydd â Pholisïau Diogelu Awen a sicrhau ei fod yn cael ei gymhwyso yn ôl yr angen.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Cyffredinol y rôl hon yw:

- Bod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun a diogelwch staff eraill ac unrhyw aelod o'r cyhoedd a allai gael eu heffeithio gan eich gweithredoedd a'ch anweithredoedd yn y gwaith.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu i gynnal eich datblygiad eich hun neu i wella cymhwysedd o fewn rôl y swydd.
- Cynnal ac integreiddio ein pwrpas a'n gwerthoedd ym mhopeth rydych chi'n ei wneud, gan arsylwi a hyrwyddo pedwar gwerth Awen bob amser – Creadigol, Grymuso, Cydweithredol a Theg.
- Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cwblhau yn unol ag ymrwymiad Awen i gydraddoldeb, amrywiaeth a Chynhwysiant ac yn unol ag arfer gorau a deddfwriaeth.
- Bod yn weithredol wrth herio gwahaniaethu a stigma yn y gweithle.
- Bod yn gyfrifol am ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl.
- Gofalu am eich lles corfforol a seicolegol eich hun lle bynnag y bo modd.
- Cefnogi lles seicolegol a chorfforol ein cydweithwyr/tîm ac annog diwylliant empathig a chynhwysol.
- Bod yn gyfrifol wrth ein helpu i gyflawni ein huchelgais cynaliadwyedd drwy gyfrannu at leihau eich ôl troed carbon eich hun a gweithio tuag at yr amcanion sefydliadol yn unol â strategaeth gynaliadwyedd Awen.
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau Awen.

Nid yw hwn yn ddatganiad cyflawn o holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd hon, a allai fod yn rhaid eu hamrywio i ddiwallu anghenion newidiol y busnes.

Manyleb y Person

Y Person (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H)**):

- Person cymeradwy a dibynadwy
- Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun yn ogystal â bod yn aelod allweddol o dîm (H)
- Dull ac agwedd hyblyg a rhagweithiol, a pharodrwydd i weithio y tu allan i oriau craidd i ddiwallu anghenion y busnes.
- Hyderus a phroffesiynol gyda'r gallu i ddelio yn effeithiol â hyfforddeion, cydweithwyr, a'r cyhoedd (H)
- Ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol
- Diddordeb mewn garddwriaeth a chynnal a chadw tiroedd a gwaith coed (H)
- Diddordeb yn y Sector Gofal a chefnogi unigolion mewn amgylchedd dysgu (H)
- Meddwl blaengar ac yn gallu cyfrannu at ddatblygiad Awen.

Cymwysterau, Sgiliau, Galluoedd a Phrofiad:

(NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H)**):

- Safon addysg dda, sy'n cyfateb i NVQ/QFC 2 neu'r gallu i ddangos cymhwysedd trwy brofiad (H)
- Cymhwyster cydnabyddedig mewn garddwriaeth neu'r gallu i ddangos cymhwysedd trwy brofiad (H)
- Profiad o weithio mewn amgylchedd gofal (H)
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig da.
- Y gallu i ymgymryd â thasgau corfforol sy'n gysylltiedig â gwaith coed, tirlunio, garddwriaeth a chynnal a chadw tir. (H)
- Trwydded yrru lawn
- NVQ/QFC2 mewn Gofal neu barodrwydd i weithio tuag at y cymhwyster hwn (H)
- Gallu cefnogi unigolion ag unrhyw anghenion gofal personol a pharchu eu hurddas.
- Y gallu i gymhwyso gwybodaeth berthnasol er mwyn hyfforddi a chefnogi eraill e.e. Hyfforddeion, Gwirfoddolwyr.
- Tystysgrif Cymorth Cyntaf cydnabyddedig
- Profiad mewn rôl gwasanaeth cwsmeriaid gan gynnwys delio â thrafodion ariannol a thrin arian parod
- Tystiolaeth a dealltwriaeth wasanaethau Awen a'r hyn sydd gan Awen i'w gynnig
- Gwybodaeth a phrofiad o waith coed/cynnal a chadw tiroedd
- Y gallu i siarad Cymraeg.